



[www.capelytraeth.com](http://www.capelytraeth.com)

Rhif 95

Ionawr 2019

|    |  |                              |
|----|--|------------------------------|
| 06 | Sul yr Aelodau   | Mrs Buddug Roberts (Penaber) |
| 13 | Mr Glyn Owen (J)   | Dr Elin V. Pugh              |
| 20 | Parch Iwan Ll. Jones (J)   | Mrs Catrin Cod               |
| 27 | Parch Eric Green   | Mrs Mair Millar              |
| 08 | Cylch Trafod yn y Ffestri am 10.30. Y testun fydd 'Galw heibio' o dan arweiniad Dewi Jones |                              |
| 08 | Cyfarfod y Chwiorydd am 1 y.p.   |                              |
| 15 | Y Gymdeithas Ddiwylliadol am 7.15 yn y Ffestri. Ifor ap Glyn 'Noson yng nghwmni'r awdur    |                              |

**.Llywydd y mis:** Geraint Parry

**Ymwelwyr:** Catrin a Glenys

**Glanhawyr:** Eira a James

**Croesawu:** Capel y Traeth

**Glanhau Ffestri Jerusalem:** Buddug



*Blwyddyn  
Newydd  
Dda*

### SYMUD YMLAEN (5)

Ddechrau Tachwedd cyfarfu swyddogion Gofalaeth Gyd-enwadol arfaethedig Ardal Dolgellau Wledig, Porthmadog a Chricieth i drafod fersiwn ddrafft o Gyfansoddiad ar gyfer yr Ofalaeth. Ar sail rhai newidiadau derbyniwyd y ddogfen.

Anfonwyd y Cyfansoddiad a Memorandwm o Ddealltwriaeth at y Parch Iwan Llewelyn Jones gan ofyn iddo eu hystyried ac yna ymateb yn ffurfiol i ddweud a oedd yn fodlon eu derbyn.

Ar sail ei ymateb cadarnhaol anfonwyd y ddogfennaeth i gyd at Ysgrifennydd yr Henaduriaeth ac yna at Ysgrifennydd y Cyfundeb. Derbyniwyd negeseuon o gefnogaeth i'n bwriadau.

Er mwyn i ni gael cyfle i egluro pethau ychydig yn fanylach bwriadwn neilltuo rhan olaf Gwasanaeth bore Sul, 6 Ionawr 2019 i'r diben hwnnw. Yna, fore Sul 13 Ionawr 2019, o dan arolygaeth Meinir a Geraint Lloyd Jones fe gynhelir y bleidlais derfynol lle bydd angen i dri chwarter yr aelodau a fydd yn bresennol fod o blaid y symudiad.

Mae'r Cylchlythyr yma yn eich cyrraedd ychydig yn fuan ar gyfer mis Ionawr oherwydd bod yr Argraffdy yn cau dros wyliau'r Nadolig. Diolch i bawb a gyfrannodd i'r brif dudalen yn ystod y flwyddyn. Mae fy nyled yn fawr i Siân am ei osod yn dwt bob mis ac i Dewi am ddarllen drwyddo cyn ei anfon i'w argraffu. Diolch i'r dosbarthwyr ffyddlon sydd yn sicrhau bod y Cylchlythyr yn eich cyrraedd cyn y Sul olaf bob mis.

**Cofion** Rydym yn dymuno Nadolig dedwydd a Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch. Meddyliwn yn arbennig amdanoch chi sydd mewn Cartref Gofal neu yn gaeth i'ch aelwyd. Fel yr ydym wedi dweud droeon o'r blaen, gobeithiwn eich bod, drwy gyfrwng y Cylchlythyr, yn teimlo'n rhan o fywyd yr Eglwys ac yn gwybod eich bod wastad yn ein meddyliau a'n gweddïau.



**Diolch am ein Pobl Ifanc** Wedi cael gwledd yn Ffestri yng nghwmni'r plant, braf oedd cael cwmni ein pobl ifanc yn y Gwasanaeth i ddilyn yn y Capel. Dim ond unwaith oedd angen gofyn ac roedd hanner dwsin ohonynt yn fwy na bodlon cymryd rhan. Diolch o galon i chi am eich parodrwydd ac am eich cyfraniad gwerthfawr. Gwnaed casgliad o £150 yn ystod y Gwasanaeth at Ward Dewi, sef ward y plant yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon am eich haelioni.

**Bore Coffi** Cafwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn fore Gwener 7 Rhagfyr. Llwyddwyd i godi £530 at Apêl Madagascar. Diolch i'r chwiorydd am drefnu ac i chwithau am eich cefnogaeth arferol.

**Gŵyl y Goleuni** Roedd y Capel yn werth ei weld Sul cyntaf mis Rhagfyr gyda thuag ugain o goed Nadolig yn ei amgylchynu. Doedd dim golau arnynt yn ystod y Gwasanaeth yn y bore ond gyda'r nos mewn cyfarfod arbennig, oedd wedi cael ei drefnu gan bwyllgor Cymorth Cristnogol, roedd pob coeden yn cael ei goleuo yn ei thro yn dilyn darlleniad oedd yn rhoi gwybodaeth i ni am y gwahanol wledydd yn y byd sydd yn erfyn am gymorth gan fudiadau fel Cymorth Cristnogol. Roedd cyfle hefyd i gofio am ein cymuned ni yma yng Nghricieth. Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor am eu trefniadau.



**Ffurflen Deddf Diogelu Data** Os nad ydych wedi dychwelyd y ffurflen hon buasem y ddiolchgar iawn o'i derbyn mor fuan â phosib os gwelwch yn dda. Diolch o galon am eich cydweithrediad.



**Cylch Trafod** Daeth 23 o aelodau a ffrindiau i'r cyfarfod mis Rhagfyr. Mrs Gwyneth Jones oedd yn arwain y drafodaeth ar y testun 'Gwasanaeth'. Roedd wedi darparu cyflwyniad oedd yn sôn am y gwahanol fath o wasanaeth ac yn canolbwyntio ar Y Gwasanaeth ar y Sul. Fe gafwyd trafodaeth frwd a digon i feddwl amdano ar y diwedd. Bydd y cyfarfod nesaf ar 8 Ionawr pryd y bydd Mr Dewi Jones yn arwain trafodaeth ar y testun 'Galw heibio'.

### Dathlu'r Nadolig

Fe gynhaliwyd y cyfarfod Nadolig yn y Capel eleni er mwyn i ni gael mwynhau yr awyrgylch gyda'r coed Nadolig wedi eu goleuo.

Roedd y noson yng ngofal Wendy Rees gyda Hugh Gwynne yn gofalu am y canu ac yn cyfeilio ynghyd ag Alwena Davies. Anfonwyd ein cyfarchion at Buddug Lloyd Roberts sydd wedi gweithio mor galed gyda'r noson yma ar hyd y blynnyddoedd a ffilmwyd y noson er mwyn iddi hi gael cyfle i'w mwynhau hefyd.

Cafwyd darlleniadau amserol gan Manon Shakespeare a Miriam Williams gyda

Gwyneth Glyn yn darllen ei gwaith ei hun yn tynnu ar brofiadau ei phlentyndod. Cafwyd unawdau swynol gan Myrddin Owen, Ian Rees ac Erin Wyn Williams. Fel arfer caed cyfraniadau yn ein rhoi yn y cywair priodol at y Nadolig gan y côr, triawd a phedwarawd a gwerthfawrogwyd gwaith Lowri Puw ar y delyn. Cyflwynodd mamau'r Clwb Sul a'u cyfeillion garol fodern hwyliog i gyfeiliant gitâr Gwyneth Glyn. Wendy Rees oedd Llywydd y noson a diolchwyd i bawb yn daclus iawn gan Gwyneth Jones.

Hyfryd oedd croesawu cyfeillion o Borthmadog, Tremadog a Golan a chafodd pawb gyfle i fwynhau paned a mins pei yn y Ffestri ar y diwedd. *Gwenan W.*



## RISÊT NADOLIG

Risêt Cacen Nadolig, risêt pwdin neu sut i wneud y tatws rhost gorau 'riod – beth oedd y Clwb Sul am ei rannu hefo ni eleni tybed? 'Roedd yna hen gyffro ac edrych ymlaen beth bynnag a'r festri'n orlawn, y cadeiriau newydd wedi eu gosod yn rhesi, rhyw bedwar deg o'r hen gadeiriau wedi eu hachub o'r sied a mamau a thadau, neiniau a theidiau a ffrindiau wedi hawlio pob mainc. A'r cwbl er mwyn cael risêt Nadolig! Go brin, - mae perfformiadau'r Clwb Sul dros y chwe' blynedd diwethaf yn brawf y byddai yna rywbeth go arbennig i ddod.

A chawsom ni ddim ein siomi.

Grey Evans a Gwyneth Glyn oedd yn gyfrifol am gyfieithu/addasu'r sgrïpt oedd yn cynnwys NAW cân ac mi fyddai wedi bod werth ichi fod yno yn clywed bwrlwm y canu, y rhai ifancaf, prin yn dair oed, yn gwybod pob gair a'u canu'n afieithus.



'Roedd yno gogydd llawn busnes, cath a chi bach annwyl dros ben, Siôn Corn bolïog (oedd yn un o gynhwysion y risêt), pedair wedi eu gwisgo fel anrhegion Nadolig, pedwar robin goch bach amheus (cofiwch bod rhain hefyd yn cael eu hychwanegu i'r bowlen!), côr o'r plu eira bach cynhesaf erioed, asyn bach blinedig, bugeiliaid hamddenol braf, angylion rhyfeddol o giwt a doethion wedi eu gwisgo'n orwych yn cael eu harwain gan seren fach ddisglair, swil.

Dyna'r cynhwysion i gyd a'r risêt wedi ei chwblhau ond o amau'r cynhwysion cawn eglurhad gan y plant mai nid risêt i'w blasu oedd hon i fod ond yn hytrach risêt i'w THEIMLO ac felly 'roedd y cynhwysion pwysig yn dal ar ôl – Mair a Joseff a'r pwysicaf un, yr un yn ôl geiriau'r gân olaf sy'n

“..... Fod mor fawr

Mae o'n cyrraedd pawb. Cariad ydy' O.” - ac yn ôl un o'r actorion;- “ Un babi yn gwneud cymaint o wahaniaeth!”

Mae gan Gwyn Thomas, yn ei gyfrol 'CROESI TRAETH' gerdd yn dwyn y teitl 'Drama'r Nadolig' sy'n sôn am brofiad tebyg i'r hyn gafwyd yn ein festri ninnau fore Sul diwethaf pan gawsom ninnau'n

“.....cyfeirio'n ôl at y gwir Nadolig, At y goleuni hwnnw na ellir mo'i gladdu.”  
Diolch Elin a'r criw gweithgar. Mi fu'n anrheg gwerth chweil.

Eirwen Ll. Jones



**Ymwelodd Sion Corn  
a'r plant ar ôl eu Sioe  
gyda llond sach o  
anrhegion. Diolch yn  
fawr Sion Corn.**